Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Ymgynghoriad ar geisiadau am chwe bwyd newydd

## Dyddiad lansio: 17 Rhagfyr 2021

## Ymateb erbyn: 11 Chwefror 2022

### I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Gwneuthurwyr fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a busnesau bwyd eraill sy'n dymuno defnyddio'r bwydydd newydd yn y categorïau defnydd arfaethedig, fel gwneuthurwyr a dosbarthwyr atchwanegiadau bwyd.
- Awdurdodau Gorfodi, gan gynnwys awdurdodau lleol, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, a Chynghorau Dosbarth
- Defnyddwyr y cynhyrchion terfynol, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr sy'n ymwneud â fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, a rhieni/gofalwyr babanod.

## Pwnc a phwrpas yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r ceisiadau am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio a ystyrir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi. Gofynnwn i randdeiliaid ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir *(retained)* a ffactorau dilys eraill (tystiolaeth arall sy'n cefnogi dadansoddiad risg clir, rhesymol, a chyfiawnadwy fel buddiannau defnyddwyr, dichonoldeb technegol a ffactorau amgylcheddol), gan gynnwys y rheiny y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi eu bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn. Dyma gyfle i randdeiliaid leisio eu barn am y cyngor a roddwyd i Weinidogion i lywio penderfyniadau.

Bydd safbwyntiau yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ynghyd â'r safbwyntiau a gesglir trwy'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â barn Swyddogion y Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) heblaw'r ASB er mwyn llywio penderfyniadau Gweinidogion o ran a ddylid awdurdodi'r bwydydd newydd i'w defnyddio yng Nghymru, yr Alban, a Lloegr.

Bydd ymgynghoriad cyfochrog yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban.

## Sut mae ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:
E-bost: [RPconsultations@food.gov.uk](mailto:RPconsultations@food.gov.uk)
Enw: Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio
Is-adran/Cangen: Yr Uned Polisi Diogelwch Cemegol

## Manylion yr ymgynghoriad

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283] ar fwydydd newydd, mae'r bwydydd newydd a gynhwysir yn y ddogfen hon wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi.

Mae chwe bwyd newydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi ym mhob un o wledydd Prydain Fawr, lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ers diwedd y cyfnod pontio, cyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn y DU, a chyfrifoldeb yr awdurdod priodol perthnasol yw awdurdodi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio ym mhob un o wledydd Prydain Fawr.

Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, mae Cyfraith Bwyd yr UE ar fwydydd newydd yn dal i fod yn berthnasol o dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon (NIP). Mae hyn yn golygu bod angen awdurdodi bwydydd newydd o dan weithdrefnau awdurdodi'r UE cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon.

Ystyrir pob cais mewn atodiad ar wahân, gan gynnwys rhif ID y cynnyrch wedi'i reoleiddio a theitl y cais (CTRL+Clic i ddilyn y ddolen):


Atodiad A: RP8 – 3 ' - Sialyl-lactos (3' - SL) (newydd) 8

Atodiad B: RP9 – 6'-Sialyl-lactos (6'-SL) (newydd) 11

Atodiad C: RP14 – Cymysgedd 2'-Ffwcosyl-lactos / deuffwcosyl-lactos ("cymysgedd 2'-FL/DFL") (estyniad ar ddefnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol) 14

Atodiad D: RP87 – Olew algaidd DHA-lawn o straen *Schizochytrium* sp. WZU477 (estyniad ar ddefnydd ar gyfer awdurdodiad cyfredol) 16

Atodiad E: RP810 – DHA 550 (cais i gynyddu cymeriant dyddiol DHA o'r ffynhonnell hon i 1000 mg/diwrnod) (estyniad ar ddefnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol) 18

Atodiad F: RP811 – DHA 550 (cais i estyn defnydd yr awdurdodiad i fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol) (estyniad ar y defnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol) 20

## Cyflwyniad

Mae’r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod safonau uchel y DU o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr yn cael eu cynnal wedi ymadawiad y DU â’r UE. Mae ceisiadau am gynhyrchion wedi’u rheoleiddio ar gyfer marchnad Prydain Fawr, gan gynnwys bwydydd newydd, bellach yn destun proses dadansoddi risg y DU, gyda’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn parhau i roi cyngor i Weinidogion ar faterion diogelwch bwyd.

Mae bwydydd newydd yn fwydydd sydd heb gael eu bwyta gan bobl i raddau helaeth yn y DU neu’r UE cyn 15 Mai 1997. Er mwyn rhoi bwydydd newydd ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, neu newid manylebau neu delerau defnydd bwydydd newydd awdurdodedig, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Mae'r ceisiadau a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn yn geisiadau awdurdodi Erthygl 10.

Wedi ymgynghori, cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion perthnasol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr wneud penderfyniadau am awdurdodi (gan roi gwybod o hyd i Weinidogion yng Ngogledd Iwerddon), gan ystyried safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, ac unrhyw ffactorau dilys eraill. Rhoddir manylion y bwydydd newydd unigol yn yr atodiadau. Cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion, yn amodol ar y safbwyntiau a gesglir yn yr ymgynghoriad, fydd awdurdodi’r bwydydd newydd hyn ar y telerau arfaethedig fel y’u hamlinellir yn safbwyntiau’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

Yn unol â chyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i roi cyngor i Weinidogion o ran materion diogelwch bwyd, neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd (adran 6, Deddf Safonau Bwyd 1999), rydym wedi nodi ffactorau a allai lywio penderfyniadau Gweinidogion. Mae amlinelliadau’r ffactorau hyn hefyd yn ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wneir yn y pen draw gan Weinidogion, p’un ai penderfyniad i awdurdodi ai peidio yw hwnnw. Gwahoddir rhanddeiliaid i fanteisio ar y cyfle hwn i roi sylwadau ar y ffactorau hyn neu dynnu sylw at unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu dwyn i sylw Gweinidogion cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Mae Gweinidogion ym mhob un o’r pedair gwlad wedi cytuno i fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu o dan yr ymrwymiadau i weithio ar y cyd ar draws y pedair gwlad a nodir

yn y fframwaith hwn. O’r herwydd, mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i ddatblygu trwy fforymau traws-lywodraethol gyda’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban. Mae cynnwys yr ymgynghoriad hwn yn cynrychioli safbwyntiau’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a’r ffactorau y maent wedi nodi eu bod yn berthnasol i’r ceisiadau hyn. Cytunir ar gyngor terfynol gan y pedair gwlad cyn ei gyflwyno i Weinidogion.

## Effeithiau

Fel rhan o'r broses dadansoddi risg, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi asesu’r effeithiau a fyddai’n deillio o awdurdodi’r bwydydd newydd hyn, pe bai Gweinidogion yn penderfynu eu hawdurdodi. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o’r cynigion nodi unrhyw effeithiau sylweddol. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft Gwaith Cyflenwi Awdurdodau Lleol, Iechyd, yr Amgylchedd, Twf, Arloesi, Masnach, Cystadleuaeth, Buddiannau Defnyddwyr, neu Fusnesau Bach a Micro). Yn gyffredinol, dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

O dan y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan lawn yn y prosesau dadansoddi risg sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn adlewyrchu rôl annatod Gogledd Iwerddon yn y DU ac yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir yn ystyried yn llawn yr effeithiau posib ar y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r bwydydd newydd a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy’n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Cyhoeddir manylion yr holl geisiadau a ddilyswyd am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio ar y Gofrestr Ceisiadau am Gynhyrchion wedi'u Rheoleiddio ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Gwahoddir rhanddeiliaid i ystyried y cwestiynau a ofynnir isod mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, a ffactorau dilys eraill.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd ymatebion yn cael eu cyhoeddi, a byddant ar gael i randdeiliaid a Gweinidogion.

## Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ddiogelwch y bwydydd newydd sydd heb gael eu hystyried isod mewn perthynas â'r defnyddwyr, y rhanddeiliaid neu'r effeithiau bwriadedig?
2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon am yr effeithiau wrth ystyried awdurdodi neu beidio ag awdurdodi y bwydydd newydd unigol, ac os ydych o blaid awdurdodi, delerau awdurdodi'r bwydydd newydd (fel y'u hamlinellir yn safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban)?
3. A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai Gweinidogion eu hystyried sydd heb eu hamlygu?
4. A oes gennych chi unrhyw adborth arall?

## Ymatebion

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 8 wythnos. Rhaid i'r ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 11 Chwefror 2022. Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

Cyhoeddir yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan yr ASB cyn pen 12 wythnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Nodwch pa gais/ceisiadau neu gynnyrch/cynhyrchion rydych chi'n ymateb yn eu cylch trwy ddefnyddio'r llinell bwnc ganlynol ar gyfer eich ymateb:

Ymateb i ymgynghoriad bwydydd newydd [nodwch rif(au) y Cynnyrch wedi'i Reoleiddio]

**Anfonwch ymateb i RPconsultations@food.gov.uk**

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau.

Rhennir ymatebion gyda Safonau Bwyd yr Alban.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Shaun Jacobs
Cynghorydd Polisi Bwydydd Newydd
Yr Uned Polisi Diogelwch Cemegol

# Atodiad A: RP8 – 3'- Sialyl-lactos (3'-SL) (newydd)

## Cefndir

Cyflwynwyd y cais hwn yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Cyflwynwyd y cais am halen sodiwm 3’-sialyl-lactos (3’-SL), a geir trwy eplesu straen o *Escherichia coli* K-12 DH1 a addaswyd yn enetig (GM) (nid oes deunydd GM yn bresennol yn y cynnyrch terfynol), ac fe’i hynysir fel cynhwysyn puredig ar ffurf halen sodiwm. Mae 3’-SL yn drisacarid sydd wedi’i wneud o lwcos, galactos, ac N-asetylniwraminig asid (NANA, a adwaenir hefyd fel “asid sialig”). Mae’r 3’-SL gwneuthuredig yr un fath yn union o ran ei strwythur â’r un moleciwl sy’n bresennol mewn llaeth dynol, ac fe gyfeirir ato fel oligosacarid llaeth dynol-unfath (HiMO).

Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am ddiogelu data (DP) a chyfrinachedd o ran data a thystiolaeth wyddonol benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 26 ac Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Gellir caniatáu cais ymgeisydd am DP a chyfrinachedd fel rhan o’r awdurdodiad; mae hyn yn ddarostyngedig i gyfnod diogelu data 5 mlynedd, fel y nodir yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Mae hyn yn golygu taw dim ond yr ymgeisydd sy’n cael marchnata’r bwyd newydd yn ystod y cyfnod hwn, oni bai bod cais dilynol yn cael ei gyflwyno heb gyfeirio at y data gwyddonol perchnogol, neu gyda chytundeb yr ymgeisydd.

### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae’r safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw’n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

Dynodiad y bwyd newydd ar labelu’r bwydydd sy’n ei gynnwys fydd “3'-Sialyllactose sodium salt”.

Bydd labelu atchwanegiadau bwyd sy’n cynnwys halen sodiwm 3’-Sialyl-lactos, fel y’i diffinnir gan Gyfarwyddeb 2002/46, yn dwyn datganiad i’r perwyl na ddylid eu bwyta:

a. os yw bwydydd sy’n cynnwys 3’-Sialyl-lactos ychwanegol wedi’u bwyta ar yr un diwrnod;

b. gan fabanod a phlant ifanc.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai’n effeithio ar awdurdodiad y cynnyrch hwn.

### Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi’r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i’w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae’r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â’u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai’n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae’n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi’u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o’r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio buddiannau defnyddwyr (a amlinellir isod) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Buddiannau defnyddwyr: Mae defnyddwyr wedi [dangos eu bod yn ffafrio] labelu ar gynhyrchion GM; fodd bynnag, ni fyddai’r cynnyrch hwn yn cael ei ystyried yn GM gan nad oes unrhyw ddeunydd GM yn bresennol yn y cynnyrch terfynol. Mae’r broses gynhyrchu yn defnyddio micro-organeb gynhyrchu a addaswyd yn enetig (GM) fel cymhorthyn prosesu. Mae’r ficro-organeb GM yn deillio o straen *E. coli* K-12 DH1 rhieiniol, nad yw’n bathogenig. Mae asesiadau wedi nodi bod *E. coli* K-12 yn ficro-organeb ddiogel, nad yw’n bathogenig nac yn wenwynig, sydd yn cael ei defnyddio’n

helaeth ar gyfer cymwysiadau biotechnolegol. Profwyd pum swp o'r bwyd newydd hwn gan yr ymgeisydd i ddangos absenoldeb y ficro-organeb yn y cynnyrch terfynol, ac i ddangos diogelwch microbiolegol y cynnyrch terfynol.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.

# Atodiad B: RP9 – 6'-Sialyl-lactos (6'-SL) (newydd)

## Cefndir

Cyflwynwyd y cais hwn yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Cyflwynwyd y cais am halen sodiwm 6’-sialyl-lactos (6’-SL), sef bwyd newydd a gynhyrchir trwy eplesu straen o *Escherichia coli* K-12 DH1 a addaswyd yn enetig (GM) (nid oes deunydd GM yn bresennol yn y cynnyrch terfynol), ac fe’i hynysir fel cynhwysyn puredig ar ffurf halen sodiwm. Mae 6’-SL yn drisacarid sydd wedi’i wneud o lwcos, galactos, ac N-asetylniwraminig asid (NANA, a adwaenir hefyd fel “asid sialig”). Mae glwcos a galactos yn cynnwys y siwgr llaeth lactos, ac mae NANA yn monosacarid asidig (sydd wedi’i gymeradwyo fel cynhwysyn bwyd newydd ynddo’i hun i’w defnyddio mewn amrywiaeth o fwydydd, gan gynnwys fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol).

Mae’r 6’-SL gwneuthuredig yr un fath yn union o ran ei strwythur â’r un moleciwl sy’n bresennol mewn llaeth dynol, ac fe gyfeirir ato fel oligosacarid llaeth dynol-unfath (HiMO). Ceir 2 sialyl-lactos naturiol, sef 6’-SL a 3’-sialyl-lactos (3’-SL), sy’n isomerau adeileddol (hynny yw, mae’r moieti NANA wedi’i gysylltu â rhan arall o lactos).

Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am ddiogelu data (DP) a chyfrinachedd o ran data a thystiolaeth wyddonol benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 26 ac Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Gellir caniatáu cais ymgeisydd am DP a chyfrinachedd fel rhan o’r awdurdodiad; mae hyn yn ddarostyngedig i gyfnod diogelu data 5 mlynedd, fel y nodir yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Mae hyn yn golygu taw dim ond yr ymgeisydd sy’n cael marchnata’r bwyd newydd yn ystod y cyfnod hwn, oni bai bod cais dilynol yn cael ei gyflwyno heb gyfeirio at y data gwyddonol perchnogol, neu gyda chytundeb yr ymgeisydd.

### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae’r safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw’n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

Dynodiad y bwyd newydd ar labelu’r bwydydd sy’n ei gynnwys fydd “6'-Sialyllactose sodium salt”.

Yn unol â thelerau defnyddio atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys halen sodiwm 6'-SL fel y'i cynigiwyd gan yr ymgeisydd a'i asesu gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, mae angen hysbysu defnyddwyr, gyda label priodol, na ddylid defnyddio atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys halen sodiwm 6'-SL ar yr un diwrnod os ydych chi hefyd wedi bwyta bwydydd eraill sy'n cynnwys sodiwm halen 6'-SL ychwanegol.

Ni fwriedir i'r atchwanegiadau bwyd hyn gael eu defnyddio os yw bwydydd eraill sy'n cynnwys 6'-SL, neu laeth o'r fron, wedi cael eu defnyddio ar yr un diwrnod.

Bydd labelu atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys halen sodiwm 6'-Sialyl-lactos (6'-SL) yn dwyn datganiad i'r perwyl na ddylid eu bwyta:

a. os yw bwydydd sy'n cynnwys 6'-Sialyl-lactos ychwanegol wedi'u bwyta ar yr un diwrnod;

b. gan fabanod a phlant ifanc.

## Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai'n effeithio ar awdurdodiad y cynnyrch hwn.

## Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o’r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio buddiannau defnyddwyr (a amlinellir isod) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Buddiannau defnyddwyr: Mae defnyddwyr wedi dangos eu bod yn ffafrio labelu ar gynhyrchion GM; fodd bynnag, ni fyddai’r cynnyrch hwn yn cael ei ystyried yn GM gan nad oes unrhyw ddeunydd GM yn bresennol yn y cynnyrch terfynol. Mae’r broses gynhyrchu yn defnyddio micro-organeb gynhyrchu a addaswyd yn enetig (GM) fel cymhorthyn prosesu. Mae’r ficro-organeb GM yn deillio o straen *E. coli* K-12 DH1 rhieiniol, nad yw’n bathogenig. Mae asesiadau wedi nodi bod *E. coli* K-12 yn ficro-organeb ddiogel, nad yw’n bathogenig nac yn wenwynig, sydd yn cael ei defnyddio’n helaeth ar gyfer cymwysiadau biotechnolegol. Profwyd pum swp o’r bwyd newydd hwn gan yr ymgeisydd i ddangos absenoldeb y ficro-organeb yn y cynnyrch terfynol, ac i ddangos diogelwch microbiolegol y cynnyrch terfynol.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy’n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.

# Atodiad C: RP14 – Cymysgedd 2’-Ffwcosyl-lactos / deuffwcosyl-lactos (“cymysgedd 2’-FL/DFL”) (estyniad ar ddefnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol)

## Cefndir

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am estyniad ar ddefnydd y cymysgedd bwyd newydd 2’-Ffwcosyl-lactos/deuffwcosyl-lactos (2’-FL/DFL) er mwyn caniatáu ei ddefnyddio mewn diodydd llaeth a chynhyrchion tebyg wedi’u bwriadu ar gyfer plant ifanc. Mae’r ymgeisydd hefyd wedi ceisio cynnwys eglurder ychwanegol yn y dynodiad a’r fanyleb ar gyfer y cymysgedd 2’-FL/DFL. Yn benodol, mae’r ymgeisydd yn cynnig cael gwared ar y dull sychu, a chynnwys 3-ffwcosyl-lactos yn y gwerth prawf ar gyfer oligosacaridau allweddol (sy’n naturiol bresennol yn llaeth y fron), yn hytrach na chyda “swm y carbohydradau eraill”.

Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am gyfrinachedd o ran gwybodaeth wyddonol benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283.

### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae’r safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw’n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai’n effeithio awdurdodi’r estyniad ar ddefnydd y cynnyrch hwn.

### Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi’r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i’r casgliad

bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio buddiannau defnyddwyr (a amlinellir isod) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Buddiannau defnyddwyr: Mae defnyddwyr wedi dangos eu bod yn ffafrio labelu ar gynhyrchion GM; fodd bynnag, ni fyddai'r cynnyrch hwn yn cael ei ystyried yn GM gan nad oes unrhyw ddeunydd GM yn bresennol yn y cynnyrch terfynol. Mae'r broses gynhyrchu yn defnyddio micro-organeb gynhyrchu a addaswyd yn enetig (GM) fel cymhorthyn prosesu. Mae'r ficro-organeb GM yn deillio o straen *E. coli* K-12 DH1 rhieiniol, nad yw'n bathogenig. Mae asesiadau wedi nodi bod *E. coli* K-12 yn ficro-organeb ddiogel, nad yw'n bathogenig nac yn wenwynig, sydd yn cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer cymwysiadau biotechnolegol. Profwyd pum swp o'r bwyd newydd hwn gan yr ymgeisydd i ddangos absenoldeb y ficro-organeb yn y cynnyrch terfynol, ac i ddangos diogelwch microbiolegol y cynnyrch terfynol.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.

# Atodiad D: RP87 – Olew algaidd DHA-lawn o straen *Schizochytrium* sp. WZU477 (estyniad ar ddefnydd ar gyfer yrawdurdodiad cyfredol)

## Cefndir

Cyflwynwyd y cais hwn yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Cyflwynwyd y cais am estyniad ar ddefnydd olew algaidd sy'n llawn asid docosahecsanöig (DHA), sy'n deillio o'r microalga morol *Schizochytrium sp.,* er mwyn cynnwys y straen WZU477 fel cynhwysyn bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol (fel y'u diffinnir gan Reoliad yr UE a Ddargedwir 609/2013) yn y rhestr o fwydydd newydd awdurdodedig fel ffynhonnell amgen o asidau brasterog a ganiateir ar hyn o bryd yn y cynhyrchion hyn. Mae'r ymgeisydd yn cynnig estyn y gymeradwyaeth ar gyfer olew algaidd DHA-lawn sy'n deillio o *Schizochytrium* sp. er mwyn cynnwys y straen WZU477 fel cynhwysyn bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn piwrî ffrwythau/llysiau gydag uchafbwynt cynnwys DHA o 100mg/100g. Ni chynigir unrhyw newidiadau eraill i'r manylebau cyfredol.

Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am ddiogelu data (DP) a chyfrinachedd o ran data a thystiolaeth wyddonol benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 26 ac Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Gellir caniatáu cais ymgeisydd am DP a chyfrinachedd fel rhan o'r awdurdodiad; mae hyn yn ddarostyngedig i gyfnod diogelu data 5 mlynedd, fel y nodir yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Mae hyn yn golygu taw dim ond yr ymgeisydd sy'n cael marchnata'r bwyd newydd yn ystod y cyfnod hwn, oni bai bod cais dilynol yn cael ei gyflwyno heb gyfeirio at y data gwyddonol perchnogol, neu gyda chytundeb yr ymgeisydd.

### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw'n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai'n effeithio awdurdodi'r estyniad ar ddefnydd y cynnyrch hwn.

### Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.]

## Atodiad E: RP810 – DHA 550 (cais i gynyddu cymeriant dyddiol DHA o’r ffynhonnell hon i 1000 mg/diwrnod) (estyniad ar ddefnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol)

### Cefndir

Cyflwynwyd y cais hwn yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Cyflwynwyd y cais am lefel ddefnydd uwch ar gyfer yr olew sy’n llawn asid docosahecsanöig (DHA) sy’n deillio o *Schizochytrium* sp. er mwyn awdurdodi defnyddio’r cyfryw olewydd mewn atchwanegiadau bwyd hyd at 1000mg/diwrnod. Mae’r cais hwn yn gysylltiedig ag olew *Schizochytrium* sp. sy’n cydymffurfio â’r manylebau sydd wedi’u gosod yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2017/2470.

Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am gyfrinachedd o ran gwybodaeth benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283.

#### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae’r safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw’n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

Dynodiad y bwyd newydd ar labelu’r bwydydd sy’n ei gynnwys fydd “Oil from the microalgae *Schizochytrium* sp.”

#### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai’n effeithio awdurdodi’r estyniad ar ddefnydd y cynnyrch hwn.

#### Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi’r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i’r casgliad

bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.

## Atodiad F: RP811 – DHA 550 (cais i estyn defnydd yr awdurdodiad i fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol) (estyniad ar y defnydd ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol)

### Cefndir

Cyflwynwyd y cais hwn yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283. Cyflwynwyd y cais am estyniad ar ddefnydd, ac mae'n cyfeirio at olew *Schizochytrium* sp. sy'n llawn asid docosahecsanöig (DHA), sydd eisoes wedi'i awdurdodi fel bwyd newydd. Mae'r estyniad hwn ar ddefnydd ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol. Mae'r cais hwn yn gysylltiedig ag olew *Schizochytrium* sp. sy'n cydymffurfio â'r manylebau sydd wedi'u gosod yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2017/2470.

Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am gyfrinachedd o ran gwybodaeth benodol a gynhwysir yn eu cais, fel y caniateir yn Erthygl 23 Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2015/2283.

#### Telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig

Amlinellir y telerau arfaethedig ar gyfer rhestru bwydydd newydd awdurdodedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny, ac nid yw'n debygol o gael effaith ar iechyd pobl.

Mae DHA yn orfodol mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol o dan Reoliad (UE) 2016/127. Dylai ychwanegiad DHA fod rhwng isafswm o 20mg/100kcal ac uchafswm o 50mg/100kcal. Y boblogaeth darged yw babanod a phlant ifanc.

Dylid nodi y bydd gweithgynhyrchwyr fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, a allai bowdro'r bwyd newydd a'i gynnwys yn eu fformiwlâu, yn gwarantu bod y crynodiad DHA yn bodloni gofyniad y Rheoliad. Dyma fydd yr achos hefyd os bydd ffynonellau DHA eraill yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r bwyd newydd.

Dynodiad y bwyd newydd ar labelu'r bwydydd sy'n ei gynnwys fydd "Oil from the microalgae *Schizochytrium* sp."

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a fyddai’n effeithio awdurdodi’r estyniad ar ddefnydd y cynnyrch hwn.

### Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi’r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i’r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i’w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae’r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â’u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai’n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae’n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau arfaethedig sydd wedi’u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o’r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y bwyd newydd hwn. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr.

Mae'r bwyd newydd hwn wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy’n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.